Ffugenw: Criafolen

Rhwygodd yr amlen ar agor…..

Stori'r Blitz

Roedd hi'n dywyll tu allan, teimlais y gwynt yn chwythu trwy ffenest fy llofft wrth i mi orwedd yn fy ngwely caled, tamp. Clywais y seirenau yn sgrechian tu allan wrth i awyrennau ffyrnig Yr Almaen fomio strydoedd prydferth Llundain. Aroglais losgi yn dod o rywle. Yna gwelais fwg yn dechrau llifo i fewn o o dan y drws. Clywais Mam yn gweiddi, yna rhedodd dad i fewn I'n ystafell wely i "Tyrd!" edrychais o gwmpas fy llofft a meddwl *ai hwn bydd y tro olaf i mi weld yr ystafell, neu hyd yn oed y tŷ yma*. Cipiais fy nhedi brown clytwaith a cheisio nol ychydig o ddillad "Does na ddim amser, gada nhw" felly gadawais fy ystafell gyda fy nhedi. Rhedais allan o'm 'stafell mewn pyjamas, ac heb ddillad sbâr "paid ac anadlu'r mwg i fewn, iawn?" Nodiais fy mhen, "barod?" meddai fy nhad, "barod" atebais, er nad o ni yn barod o gwbl. Edrychodd fy nhad arna i yn gadarn. "Ar ôl 3 – 1,2,3". Rhedom allan o'r ystafell ac i fewn i'r mwg a'r tan o'n blaenau.

Dwi am gymryd yr amser anghyfleus yma i ddweud ychydig bach amdana i. Fy enw i yw Cadi Mai Edwards, rydw i'n 11 oed. Digwyddodd y tan pan roeddwn yn byw yn Llundain gyda fy Nhad, fy Mam a'n chwaer fach – Annest Fflur Edwards. Rydw i ym mlwyddyn 6 Ysgol Gymraeg Llundain, a dwi'n caru ysgol yn fawr iawn. Un o fy hoff bethau i wneud ydy mynd am dro o gwmpas Llundain a gweld sut mae'r dref yn newid, er dydy hynny ddim bob amser yn beth da. Dyna ddigon am fy nghefndir diflas i, rydw i yn siŵr eich bod chi eisiau imi fynd nôl at fy hanes yn ystod bomio dychrynllyd y blitz ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd 1940....

Roedd dros *can mil* o bobl yng ngorsaf Stryd Llundain y noson honno. Roedd rhaid i ni orwedd ar y llawr caled, oer, ac i wneud pethau'n waeth roedden ni bron ar ben ein gilydd yna. Roedd yna blant a phobl o bob oedran yno, yn crio a sgrechian. Gwelais ferch fach dim hyn na 10 yn gweiddi am ei rhieni roedd ei chyrlau cochion a'i llygaid brown yn wlyb gyda dagrau. Roedd hi'n erchyll yno, ond ro'n i'n gwybod bod hi gymaint gwell na bod allan yn y bomio hyll. Gorffwysais fy mhen ar lin fy nhad a cheisio cwympo i gysgu, ond roedd hi'n amhosib i mi ymlacio. Roedd atgofion o fy ystafell a fy nhŷ yn chwyrlio yn fy ymennydd fel yr amser ro'n i yn crio oherwydd mod i wedi colli fy hoff dedi, cyn I'n

nhad ddod fewn i fy ystafell a ’nghysuro i. Dwi dal yn cofio’r teimlad cynnes o gael fy nghofleidio. Dechreuodd fy llygaid drymhau ac o’r diwedd disgynnais i gwsg anhapus.

Pan ddeffrais, doeddwn i ddim yn siŵr lle oeddwn i, ond yna llifodd atgofion brawychus y noson gynt i fewn i 'mhen fel llifogydd. Sylweddolais bod hi’n fore ac roedd llawer iawn o bobl wedi gadael yr orsaf i fynd i weld beth oedd ar ôl o’u cartrefi. Dechreuais feddwl am ein cartref ni. O, na beth os doedd ‘na ddim byd ar ôl, dim ond pentwr o rwbel a gweddillion ryw hen ddodrefn. Edrychais o gwmpas i weld Mam, Annest a Dad yn cysgu yn hamddenol ar lawr caled y gorsaf enwog hon. “Dad, Dad!” Dechreuais ysgwyd ysgwyddau fy nhad “deffra, dwi isho mynd adre” Edrychodd dad arna i yn flinedig. “cariad, mae’n rhaid i ni aros yma am funud, iawn?” Edrychais arno yn betrusgar “pam? Mae’n RHAID i ni fynd adre cyn i ynrhywun ddwyn rhywbeth” Syllodd dad arna i yn lygad agored “pwynt da” ceisiodd ddeffro Mam ac Annest ond methodd yn lan. “DEFFRWCH!!!!” meddais yn ddiamynedd. Neidiodd mam at ei thraed “Be? O, Cadi Mai dim ond ti sy yna” dechreuodd gwypo yn ôl i gysgu nes i mi weiddi allan “Mam, mae’n rhaid i ni fynd adre, cyn i unrhywyn ddwyn rhywbeth” syllodd ata i, ac yna at dad ac yn ôl at a i, roedd o fel ei bod hi’n gwylio gem tenis ar y teledu, ond yna o’r diwedd “iawn te” meddai mewn gorchfygiad cyn hela ein pethau, a chychwyn ar y daith blinedig adref.

Wrth i ni gerdded drwy strydoedd Llundain, gwelais ambell i wyneb cyfarwydd o fy Ysgol. Ceisiais ddal sylw fy athrawes ond daliodd rhywbeth fy llygad, y cyrlau cochion a oedd yn perthyn i'r ferch fach drist. Er, roeddwn i eisiau gweld os oedd hi’n iawn roedd rhaid i mi ddal fyny gyda fy nheulu. Roedd y difrod yn anghredadwy ac doeddwn i bron ddim yn gallu adnabod y strydoedd roeddwn I'n nabod mor dda. Roedd hi’n teimlo fel oes cyn i ni gyrraedd adref i'n cartref clyd, ond o’r diwedd fe gyrhaeddom ni gyda dagrau yn llifo lawr ein bochau budr. Roedd y tŷ yn anadnabyddus, roedd ein ffenestri ni i gyd wedi cael ei chwythu i ddarnau bychain a’r rhan fwyaf o’n waliau wedi cwympo. Gwelais ddarnau o blaster ym mhobman-ar y llawr ar y stryd. Yr unig ddau beth oedd yn sefyll oedd y drws llachar coch a’r wal o’i gwmpas. Cwympodd mam i'w phengliniau a’i phen wedi claddu yn ei dwylo. Ceisiodd fy nhad ei chysuro hi, ond doedd dim modd. “Beth wnawn ni?” gofynnodd hi yn anobeithiol. Edrychodd Dad ati ac ateb yn sicr a chadarn, “Bydd rhaid i ni ail adeiladu ein cartref.” A dyna beth wnaethom ni.

*6 mis yn ddiweddarach*

Edrychais at niwl trwchus bore Llundain yn gwasgaru ar hyd yr holl ddinas wrth i mi orwedd ar fy ngwely newydd ar ben fy mlanced clytwaith a greodd Mam 5 mis yn ôl. Edrychais allan at ein gardd prydferth a'r blodau plannon ni yno. Meddyliais *dydy bywyd ddim yn gallu bod llawer gwell na hyn "*Cadi, mae bwyd yn barod!" clywais fy nhad yn gweiddi o lawr staer "Dwi'n dod wan!" Atebais cyn neidio i fyny o fy ngwely a rhedeg lawr staer i gael fy nghinio.

Bwytais fy mwyd yn gyflym er nad oedd llawer ohono oherwydd dogni, ond roeddwn i wedi arfer peidio cael gormodedd o fwyd erbyn hyn. Pan oedden ni ar fin gadael y bwrdd i helpu Mam a Dad i olchi llestri clywsom gloch y drws yn canu, "Ai i nol o" dywedodd fy nhad yn syth. Clywais y drws yn agor a sŵn llais y postman yn siarad gyda fy nhad. Clywais y drws yn cau a gwelais fy nhad yn cerdded i fewn i'r ystafell gydag amlen yn ei law "Gan pwy mae o?" Gofynnodd fy mam yn ddiamynedd. Trodd fy nhad yr amlen i weld ochr arall y papur, edrychodd i fyny. Trodd ei wyneb yn wyn fel sialc ac o'r diwedd atebodd "y fyddin" ebychodd mam, "agora fo" dywedodd ac dyna beth wnaeth dad. Rhwygodd yr amlen ar agor a gwelais y memrwn melyn "darllen o, dad" dywedodd Annest yn gyflym. Edrychodd fy nhad ati yn gariadus ati ac yna yn ôl at y llythr oll-bwysig *"Annwyl Mr Geraint Jones, hoffwn roi wybod i chi bod angen milwyr ychwanegol ym myddin Prydain Fawr. Hoffwn eich cyfarwyddo bod angen i chi ymuno gyda'n byddin yn y Dwyrain Canol cyn gynted a phosib, yn gywir Cadfridog Bernard Montgomery."* Gwelais ddeigryn yn llifo yn araf lawr boch fy nhad ac yn glanio ar lawr ein cartref.

"Hwyl fawr, dad" meddais yn ddagreuol wrth iddo gamu ymlaen I'r awyren enfawr ynghyd a ugain o ddynion arall a oedd yn mynd I'r 'run lle - Y dwyrain Canol – i ryfela. Cododd dad ei law drwy'r ffenestr wrth i ddrysau anferth arian yr awyren CG 4A gau a dechreuodd tanio'i injan. Ac yna mewn chwinciad roedd dad wedi mynd. Teimlais ddagrau yn llifo lawr fy mochau *beth wnawn ni hebddo fo?* Meddyliais wrth i ni gerdded i ffwrdd o'r ble safodd yr awyren mawr arian eiliadau ynghynt. Ond, ar ôl i ni ddweud hwyl fawr I'n nhad roedd yna'n rhaid i minnau fynd ar daith heb deulu – I'r wlad, ymhell o'n nghartref yn ne Llundain ac i Gymru at fy nain a'n nhaid i fyw gyda nhw am mor hir ac oedd yn gyfleus. Doeddwn i ddim eisiau gadael fy mam nac Annest ar ôl ond, roedd rhaid i mi fynd ar y daith hir hon ar fy mhen fy hyn. O'r diwedd cyrhaeddon ni'r trên stem enfawr coch. Edrychais at fy mam a dweud "Ydech chi'n siŵr byddech chi'n ac Annest yn iawn, mam?" dechreuodd ddagrau lifo i lawr bochau mam "Cadi fach, paid a phoeni amdan ni cariad. Bydd popeth yn iawn. Weli di" Clywais chwiban yn canu ac dyn yn gweiddi "Brysia neu rwyt ti am fethu'r trên" meddai mam yn gyflym. Cofleidiais fy mam ac Annest yn dynn cyn rhedeg ymlaen I'r trên.

Roedd y trên yn llawn dop, doedd yna prin unrhyw le i symud. Ac y sŵn, doeddwn i ddim yn gallu clywed fy hun yn meddwl. Ceisiais edrych dros ben yr holl blant ac edrych am le i eistedd, ac o'r diwedd gwelais sedd rydd wrth ochr merch wallt cyrliog fflamgoch-y 'run ferch a welais ar y stryd y bore ar ôl y bomio ac yn y gorsaf y noson ynghynt. Cerddais draw at y sedd a sefyll wrth ochr y ffenest a wafio yn wyllt at fy mam, ac yna dechreuodd y drên ar y daith hir tuag at bennod nesaf fy mywyd.